



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



5.1.21

Annwyl Rieni,

Yr ydym unwaith eto mewn cyfnod anodd a phryderus i bawb ac rwy'n ddiolchgar iawn i chi am eich amynedd a'ch dealltwriaeth wrth i newyddion am gau ysgolion eich cyrraedd unwaith eto. Byddaf yn eich diweddarau fel y bydd rhagor o wybodaeth i law.

Fel y gwyddoch, rydym yn parhau i ddefnyddio **See-Saw** (gyda'r Cyfnod Sylfaen) a **Google Classroom** (gyda CA2) fel llwyfannau dysgu digidol o bell. Roedd y llwyfannau yma yn gweithio yn hwylus ac yn effeithiol yn ystod y cyfnod clo'r llynedd. Rydym hefyd yn defnyddio **'My Maths'** gyda disgyblion CA2 erbyn hyn – gweler y canllaw yn atodol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion CA2 yn gallu defnyddio Google Classroom yn annibynnol ac yn gallu anfon negeseuon a chwestiynau i'w hathrawon drwy'r llwyfan yma. See-Saw a Google Classroom fydd y ddolen gyswllt rhwng y disgyblion a'u hathrawon, felly, os yn bosibl, anogwch eich plentyn i wneud rhyw fath o gyswllt a'u hathro/awes yn ddyddiol. Cofiwch nad oes pwysau ar y plant nag arnoch chi fel rhieni i sicrhau fod pob tasg yn cael eu cwblhau – gwn y gallai fod yn anodd ar rieni sydd yn gorfod gweithio o adref a gwarchod eu plant ar yr un pryd. Mae darpariaeth amgen mewn lle ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac fe fydd y cymorthyddion dosbarth mewn cyswllt cyson â'r unigolion yma.

Os hoffech chi fenthg llyfrau darllen ar gyfer eich plentyn, yna cysylltwch â ni ac fe allwn drefnu i chi eu casglu o'r dderbynfa.

Cofiwch ein bod yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn. Os oes ganddoch chi unrhyw gwestiwn, neu os ydych chi cael unrhyw anhawster wrth defnyddio'r llwyfannau digidol, yna cysylltwch gyda'r athro/awes dosbarth drwy ffonio neu ebostio – bydd yr athrawon yn siwr o ymateb yn ystod oriau ysgol. Mae eu manylion cyswllt ar waelod yr ebost yma.

Os yr ydych chi angen y ddarpariaeth gofal ar gyfer plant gweithwyr allweddol yr wythnos nesaf (11/1/21 – 15/1/21), yna cwblhewch y ffurflen yma ar-lein erbyn 8/1/21 – dilynwch y ddolen: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k2JdRIORle1LvGQxUHGcm8VUNEZLUFJRU0xZMEZRNV1WEJVS1k1VE9QRC4u Fe fyddwn yn sicrhau fod plant gweithwyr allweddol yn cael cyfle i gwblhau y tasgau sydd yn cael eu gosod ar-lein pan yn mynychu'r ddarpariaeth gofal yn yr ysgol.

Cofiwch gysylltu â mi os yr ydych chi angen sgwrs am fater penodol neu eich bod angen rhannu pryder gyda mi fel Pennaeth – ffoniwch neu anfonwch ebost unrhyw dro.

Cofion gorau,

Iwan Wyn Taylor

(Pennaeth)

Bl/Yr.5&6 - Mr Rhys Ynyr Jones: JonesR919@hwbcymru.net

Bl/Yr.3&4 - Mrs Siân Owen: OwenS152@hwbcymru.net

Bl/Yr.1&2 - Miss Angharad Williams: williamsA1665@hwbcymru.net

Meithrin a Derbyn / Nursery & Reception – Mrs Anest Jones: JonesA1204@Hwbcymru.net

Ffôn / Telephone: 01248 422350